# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 4 Ebrill 2017

Amser: 09.00 - 10.31

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3948

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Neil McEvoy AC<br>David Melding AC |
| Tystion: | John Forsey, Highways, Transport & Recycling, Powys County Council - Welsh Local Government Association (WLGA)<br>Steve Wright MBE, Chairman - Licensed Private Hire Car Association |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Mynychodd David Melding yn lle Janet Finch-Saunders.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-738 Deiseb Gyhoeddus ar gyfer Ffordd Osgoi i Ddinas Powys

Datganodd David Melding y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae wedi cefnogi'r ymgyrch ar gyfer ffordd osgoi Dinas Powys yn flaenorol.

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i ofyn a yw Llywodraeth Cymru wedi helpu i ariannu'r astudiaeth gyfredol i mewn i rwydwaith trafnidiaeth Dinas Powys ac, os felly, a fyddai mewn sefyllfa i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd hyn wedi dod i ben.

### 2.2 -05-748 Bysiau Ysgol i Blant Ysgol

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i gysylltu â'r deisebydd er mwyn cael eglurhad am ei deiseb, yng ngoleuni'r wybodaeth a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-739 Achub Gwasanaethau TWF

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb ac, o ystyried boddhad y deisebwyr gydag ehangu'r rhaglen Twf o fis Ebrill 2017, cytunwyd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebwyr am eu cyfraniad.

### 3.2 P-04-399 Arferion lladd anifeiliaid

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 3.3.

### 3.3 P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i anfon sylwadau mwyaf diweddar y deisebydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a derbyn y cynnig o gael y newyddion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru pan fo hynny'n briodol

### 3.4 P-04-477 Cefnogi'r Bil Rheoli Cŵn (Cymru)

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebydd yn dilyn ei gyfarfod a drefnwyd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

### 3.5 P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ddychwelyd at y ddeiseb yn y cyfarfod nesaf fel y gellir ei hystyried ochr yn ochr â deiseb arall ar geisiadau cloddio glo brig.

### 3.6 P-05-717 Sefydlu Hawliau Mynediad Cyhoeddus Statudol i Dir a Dŵr Mewndirol at Ddibenion Hamdden a Dibenion Eraill.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- anfon sylwadau'r deisebydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig; ac
- aros am fanylion pellach ar y cynigion ar gyfer diwygio sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru.

### 3.7 P-05-747 Cynnal Profion TB ar Wartheg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- anfon sylwadau'r deisebydd at Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig er mwyn iddi eu hystyried yn ei thrafodaethau;
- anfon y ddeiseb at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig o ystyried ei ymchwiliad diweddar i'r mater hwn;

- aros am y datganiad sydd ar ddod gan Ysgrifennydd y Cabinet ar ei phenderfyniad; a
- rhoi gwybod i'r deisebydd am yr ystyriaeth barhaus sy'n cael ei rhoi i'r mater o brofion TB ar gyfer gwartheg.

### 3.8 P-05-712 Byddai Adran Ewrop o fewn Llywodraeth Cymru yn Sicrhau Llais Clir, Strategol ac Atebol i Gymru yn y Trafodaethau Parhaus

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i anfon at y deisebwr gopi o adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar yr Oblygiadau i Gymru yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac aros am ei farn am y wybodaeth a dderbyniwyd.

### 3.9 P-05-731 Gwerthu Tir a Lonydd Mynediad yn Abercwmboi

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a daeth i'r casgliad nad oes llawer rhagor y gall y Pwyllgor ei wneud tra bod y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol ynglŷn â'r defnydd o'r tir yn parhau. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i ofyn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd y trafodaethau hyn wedi dod i ben.

### 3.10 P-05-740 Deiseb i Warchod Ein Stryd Fawr

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am farn y deisebwr am yr ohebiaeth ddiweddaraf gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol cyn cytuno ar y cam nesaf mewn perthynas â'r ddeiseb.

### 3.11 -04-568 Ymchwiliad Cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Ystyriodd y Pwyllgor ymateb gan y deisebwr a chytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am ymgysylltu â'r broses ddeisebu.

### 3.12 P-04-601 Gwaharddiad Arfaethedig ar Ddefnyddio e-sigaréts Mewn Mannau Cyhoeddus

Ystyriodd y Pwyllgor ymateb gan y deisebwr a chytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am ymgysylltu â'r broses ddeisebu.

### 3.13 -04-394 Achub ein Gwasanaethau - Ysbyty Tywysog Philip

Ystyriodd y Pwyllgor ymateb gan y deisebwr a chytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebwyr am ymgysylltu â'r broses ddeisebu.

### 3.14 P-04-367 Achub ein Gwasanaethau Ysbyty

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r deisebydd gysylltu ddiwethaf â'r Pwyllgor.

### 3.15 P-04-455 Achub adran achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r deisebydd gysylltu ddiwethaf â'r Pwyllgor.

### 3.16 P-04-431 Preswylwyr Sir Benfro yn erbyn Toriadau I Wasanaethau Iechyd

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r deisebwyr gysylltu ddiwethaf â'r Pwyllgor.

### 3.17 P-04-537 Plannu Coed i Leihau Llifogydd

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r deisebwyr gysylltu ddiwethaf â'r Pwyllgor.

### 3.18 P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i gymryd camau pellach i geisio ail-sefydlu cyswllt gyda'r deisebwr drwy'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta.

### 3.19 P-04-526 Gwnewch Senedd TV yn hygyrch i bobl fyddar

Cytunodd y Pwyllgor i gymryd camau pellach i geisio ail-sefydlu cyswllt gyda'r deisebwr drwy'r Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion yn ymwneud â Phobl Fyddar.

### 3.20 -04-442 Sicrhau cymorth da i blant anabl a'u teuluoedd sy'n agos i'w cartrefi

Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ymateb gan y deisebwr ac ystyried y ddeiseb eto yn y cyfarfod ar 9 Mai.

### 3.21 P-04-559 Ymwybyddiaeth mewn Ysgolion Uwchradd o Hunan-niweidio

Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ymateb gan y deisebwr ac ystyried y ddeiseb eto yn y cyfarfod ar 9 Mai.

### 3.22 P-04-466 Argyfwng Meddygol - Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru.

Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ymateb gan y deisebwr ac ystyried y ddeiseb eto yn y cyfarfod ar 9 Mai.

### 3.23 P-04-524 Rheolaeth Gynllunio a'r Gymraeg

Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ymateb gan y deisebwr ac ystyried y ddeiseb eto yn y cyfarfod ar 9 Mai.

## 4 Sesiwn dystiolaeth - P-05-710 Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo'i Hangen Arnynt

Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd i ysgrifennu at y Gymdeithas Tacsis Genedlaethol i geisio tystiolaeth ysgrifenedig ar y ddeiseb.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod tystiolaeth lafar o dan eitem 4 ar yr agenda.

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth.